

## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Eirianwen Martin (Nantglyn) a fu yn Ysbyty Glan Clwyd am nifer o ddyddiau yn ystod yr wythnos. Gweddiwn y bydd yn profi Duw yn gynhaliath ac yn nerth iddi dros y misoedd nesaf yma.
- Parhawn hefyd i gofio am Elfed Davies (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd gan ddiolch am y gofal y mae'n ei gael yno. Hyderwn ei fod yntau'n profi cariad Duw yn ei amgylchynu.
- Da deall bod William Jones (Llanefydd) wedi cael dod adre erbyn hyn. Parhawn i gofio amdano yn ein gweddiâu, gan hyderu y caiff ef a'r teulu adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.
- Cyflwynwn i ofal Duw eraill o'r Fro sy'n wynebu rhagluniaethau croes y dyddiau hyn gan ddeisyf y cânt hwythau adnabod yr un nodedd, yr un nerth, yr un tangnefedd.
- Dymunwn orau'r nef i Eirwyn Edwards (Groes) a Kat ar eu priodas ddydd Gwener nesaf yn Eglwys Sant Marcella, Eglwyswen, Dinbych.

## Souled Out

Bydd y cwrs Souled Out, sydd ar gyfer ieuenctid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

## I ddod

- **Sasiwn Genhadol y Chwiorydd** yng Nghapel Moreia, Llangefni, dydd Mercher, Mai 4ydd.
- **Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant ar nos Fercher, yn cychwyn Mai 4ydd. Cyfres o 6 sesiwn hamddenol i helpu pobl i baratoi deunydd ar gyfer arwain Addoliad er mwyn bod yn fwy hunan gynhaliol yn ein heglwysi.
- **Pwyllgor Gŵyl Ysgol Sul** nos Iau, Mai 5ed yn Ffestri Capel Groes am 7.30. (Bydd angen un cynrychiolydd o bob eglwys, os gwelwch yn dda.)
- Cyfarfod o waith **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a Chyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul** yng Nghapel Bethania, Rhuthun ar nos Wener, Mai 13eg.
- **Penwythnos 'GWERTHFAWR'** i ferched oed uwchradd yng Ngholeg y Bala, Mai 13eg-15fed. Mwy o fanylion trwy ffonio'r Coleg: 01678 520565
- **Martyn Geraint** fydd yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Grist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Mwy o fanylion i ddilyn.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24<sup>ain</sup> Ebrill 2011

Oedfa arbennig y Pasg  
heno am 6.00. Dewch  
â ffrind efo chi.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Mae hi'n fore Sul y Pasg! Cawn gyfle heddiw i gofio a dathlu dydd atgyfodiad Iesu! Mae'r gred yn yr atgyfodiad yn hollol ganolog i'r ffydd Gristnogol. Heb gredu hyn, ofer yw ein ffydd – does gennym ddim i obeithio ynddo. OND! 'y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi!' (1 Cor.15:20). Y mae gennym le felly i bob gobaith yng Nghrist – gobaith na chawn ein siomi ganddo! (Rhuf.5:5)

Tybed a gawsoch chi gyfle wedi holl brysurdeb yr wyna i edrych ar ffrwyth eich llafur? Gallaf ddychmygu rhai ohonoch yn rhyw droi yn ôl i edrych ar lond cae o ddefaid ac ŵyn ac yn teimlo yn 'o bles hefo'r hyn a welwch chi! Pwysu ar ambell i giat neu sbio o ben tractor ac yn teimlo ei bod wedi bod yn werth yr holl ymdrech. Mae rhywbeth yn braf mewn cael cynhaeaf – cynhaeaf ŵyn yn ei bryd fel pob cynhaeaf arall - a chael gweld ffrwyth eich llafur eto ar y tir. Teimlad heb ei ail yw cael gorffen!

Dyna sydd mor rhyfedd am dymor yr arholiadau hefyd. Er gwaetha'r straen a'r boen o adolygu a pharatoi, mae cael gorffen yr arholiad ola yn bleser o'r mwya! Neu mi roedd i mi ers talwm! Cael edrych ymlaen at yr haf a chael teimlo bod y cyfan wrth gefn, wedi ei orffen!

Yn Oedfa'r Fro heno byddwn yn ystyried y gair "Gorffennwyd" a lefarodd yr Arglwydd ar y groes. Nid gair gŵr yn sigo dan boen oedd hwn ond gair buddugoliaeth! Gwyddai Iesu nad oedd dim arall i'w ychwanegu at yr hyn a oedd yn rhaid digwydd i Dduw gael ei ogoneddu'n llawn ac i'r iachawdwriaeth fawr gael ei chyflawni! Mater o amser bellach oedd cael y fuddugoliaeth ar angau – tri diwrnod a dweud y gwir! Pan aeth Mair a'r disgyblion at y bedd, chwilio am gorff marw yr oeddent. Yr hyn a welsant oedd bedd gwag a Iesu byw!

Edrych yn ôl, gweld y gwaith wedi ei orffen a gweld ffrwyth ei lafur – dyna a gafodd Iesu. Cael y profiad o weld Mair yn ei addoli, cael gweld Pedr yn cael ei adfer trwy ras, clywed Tomos yn cyffesu "Fy Arglwydd a'm Duw" – dyna ffrwyth llafur Iesu! A phob tro y bydd un ohonom ni yn edifarhau a dod i gredu ynddo mae llawenydd yn y nefoedd oherwydd fe gaiff Crist fwy eto o ffrwyth ei lafur sef gweld ei ddefaid a'i ŵyn – y rhai y bu farw yn eu lle - yn llenwi'r nefoedd! 'Am fod fy Iesu'n fyw, byw hefyd fydd ei saint!'

Dewch heddiw, a dewch heno i ddathlu gwaith gorffenedig Crist a gadewch i ni ryfeddu eto at ei atgyfodiad nerthol!

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma Dewch i ddathlu yn **Oedfa Arbennig y Pasg i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Owain Edwards, Coleg y Bala yn arwain y canu, Aneurin yn pregethu a phaned i bawb yn dilyn yr oedfa. Dewch â ffrind efo chi.

Llun-Gwener **Gŵyl Gristnogol Llanw** yng Nghei Newydd, Ebrill 25ain-29ain. Mwy o wybodaeth ar y wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd oedfa ar y thema 'Gofalu' yng nghwmni Mair Owen yng Nghefn Meiriadog **am 2.00** (sylwch ar y newid amser) a bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa yn Hyfrydle, Llanfair am 5.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac ar ddechrau'r oedfa, fe fydd yr eglwys yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Yn dilyn oedfa'r hwyr, bydd y Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid.

### Saron a Pheniel

Sul yma Bydd y Parch Eifion Jones yn arwain oedfa yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Yn dilyn Oedfa'r Fro yn yr hwyr, bydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llansannan a Thanyfron yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees.

### Henllan a Groes

Sul yma Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Oedfa Deuluol yng Nghefn Berain am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig i Apêl y Cartref Cariadus, Mizoram. Bydd paned yn dilyn yr oedfa.

Yn Llanefydd, cynhelir Gwasanaeth y Pasg gan blant yr Ysgol Sul am 10.00, ac am 6.00 bydd Gwasanaeth Pasg yr Ieuenctid yng nghwmni'r Parch Tecwyn Ifan a chasgliad arbennig yn cael ei wneud i Apêl y Cartref Cariadus, Mizoram.

Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Aneurin - ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau